| | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR CRAFFU** | **Pwyllgor Craffu Gwasanaethau** |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | **22 Medi 2015** |
| **TEITL YR EITEM** | **YMCHWILIAD CRAFFU GWASANAETHAU CEFNOGOL ADDYSG – BRIFF DRAFFT** |

**CEFNDIR**

Mae gan yr Awdurdod Addysg gyfrifoldebau eang i ddarparu gwasanaethau cefnogol ar gyfer prif ddarparwyr addysg y sir ar gyfer ein plant, ein ysgolion cynradd, uwchradd ac arbenigol. Mae hynny mewn meysydd fel gwasanaethau ymgynghorol ar gyfer cynghori a gwella, anghenion addysgol arbennig a chynhwysiad ynghyd â gwasanaethau cefnogol eraill.

Mae gan yr Awdurdod Addysg gyllideb o £17.872m heb ei ddatganoli i ysgolion ar gyfer cyfarfod â'r cyfrifoldebau hyn  ac mae'r cyllidebau hyn o dan bwysau dirfawr o ran y galw am wasanaeth a hefyd y pwysau i grebachu cyllidebau oherwydd yr her ariannol sy'n wynebu'r Cyngor. Bydd yr ymchwiliad hefyd yn ystyried gwasanaethau cefnogol addysg eraill oddi fewn y £71.313m sydd wedi'i ddatganoli i ysgolion)

Fe wnaeth yr Ymchwiliad Craffu Ansawdd Addysg adnabod yr angen i ddiffinio'n glir iawn beth yw rôl yr Awdurdod Addysg o ran safon Addysg ac, yn benodol, sefydlu dealltwriaeth glir iawn o'r cyswllt rhwng yr Awdurdod ac ysgolion yn y maes ansawdd.

**PWRPAS YR YMCHWILIAD**

Yn y lle cyntaf, bydd yr ymchwiliad yn ceisio sefydlu ddealltwriaeth ynglyn â :

- Beth yw'r disgwyliadau (statudol ac eraill) ar yr Awdurdod Addysg yn y meysydd cefnogol amrywiol
- Pwy sydd yn darparu'r gwasanaethau yma a sut mae'r cyngor yn sicrhau gwasanaethau o ansawdd uchel ar gyfer ein plant ac ysgolion?
- Pa anghenion y mae'r Awdurdod yn ceisio eu cyfarch yn y meysydd hyn ac i ba raddau y mae trefniadau presennol yr Awdurdod yn cyflawni hynny
- Y cyswllt rhwng y gwasanaethau y mae'r Awdurdod yn ei ddarparu ac anghenion disgyblion y sir
- Pa heriau y mae'r Awdurdod yn ei wynebu wrth ddarparu'r gwasanaethau cefnogol hyn yn awr ac i'r dyfodol

DRAFT

- Beth yw trefniadau presennol yr Awdurdod yn y meysydd hyn a beth yw'r ymarfer da mewn ardaloedd eraill ar gyfer darparu gwasanaethau yn y meysydd hyn?

Bydd yr Ymchwiliad wedyn yn ceisio ateb y cwestiynau a ganlyn:-

- Pa fath o newidiadau, os o gwbl sydd ei angen yn y gwasanaethau, er mwyn iddynt gyflawni eu pwrpas a bod yn gynaliadwy i'r dyfodol

- Pa fodelau posib eraill sydd ar gael ar gyfer darparu'r gwasanaethau hyn?

**EFFAITH**

Bydd yr Ymchwiliad Craffu yn llunio argymhellion clir yn seiliedig ar dystiolaeth er ystyriaeth gan yr Aelod Cabinet er mwyn cynnig gwelliannau i'r gwasanaethau hyn i'r dyfodol

DRAFFT